LC1347

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

# The Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales) (Amendment) Regulations 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio The Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/1536 (W. 153)) ("y prif Reoliadau"). Maent yn rhoi ar waith newid a wnaed gan Benderfyniad Comisiwn 2006/522/EC i ddyddiad ac yn gwneud cywiriadau i’r prif Reoliadau a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfau (LC1330) ar y Rheoliadau hynny.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan ddefnyddio’r weithdrefn Weithredol ar 29 Gorffennaf 2006 a daethant i rym ar 1 Awst 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y pwyntiau canlynol eu nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Gwnaed y Rheoliadau hyn yn Saesneg yn unig, yn yr un modd â’r prif Reoliadau. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

Mae’r diwygiad a wneir gan reoliad 2(8) i reoliad 35 o’r prif Reoliadau yn gwneud yr ystyr yn ddigon eglur, ond o ychwanegu’r geiriau "before "of" " yn hytrach nag "in place of "of" ", mae sylwedd y testun yn dweud "Part IV of Schedule 8 to of these Regulations". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wall drafftio neu deipograffyddol yw hwn a fyddai wedi bod yn addas i’w gywiro trwy gyfrwng

Memorandwm Cywiriadau, ond nid ystyrir bod angen cymryd unrhyw gamau eraill yn awr.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 14 Tachwedd 2006